

Cyngor Cymuned Llanllyfni
Cofnodion cyfarfod y Cyngor, Nos Fawrth yr 12ed o Chwefror 2019

- 1. Presennol:** Barry Bracegirdle (Cadair), Dylan Herbert, Justin Davies, Nerys Williams – Penygroes; Hefina MW Roberts, Gwyndaf Roberts – Llanllyfni; Harry Wyn Owen, Sian Dafydd, Nora Jones – Talysarn; Dafydd Thomas - Nebo / **Ymddiheuriadau:** Iona Wyn Jones, Erfyl Williams (Penygroes); Ffion Jones (Nantlle); OP Huws (Llanllyfni); Craig ab Iago (Cynghorydd Sir). Croesawyd Sian Dafydd i'r cyfarfod – aelod newydd dros ward Talysarn.
- 2. Datgan buddiant personol ynglyn ag unrhyw eitem a drafodir.** Cais cynllunio Fferm Coed Madog – Harry Wyn Owen a Sian Dafydd.
- 3. Cywirdeb cofnodion cyfarfod Ionawr.** Angen cywiro paent gwyn nid melyn, a Justin Davies nid Williams. Hefina Roberts yn cynnig cywirdeb a Justin Davies yn eilio.
- 4. Cynghorwyr Sir – Adroddiadau.** Cafwyd adroddiad gan Judith. Dywedodd fod y Clwb Ieuencid wedi cychwyn, a bod trafodaethau yn parhau. Judith a Justin wedi cyfarfod efo Dylan Wyn Jones ym mhentref Penygroes.
- 5. Materion yn codi o'r cyn gofnodion ac ymatebion Cyngor Gwynedd.** Darllenwyd yr ymatebion. Angen cysylltu efo Gerallt (llwybrau) yn anghytuno efo'i ymateb, a bod angen cadw'r llwybr yn gyfredol ar ein rhestr torri. Holi os yw'r cyhoedd yn parhau i gael ei defnyddio.
- 6. Materion Pentrefi Talysarn** Angen gofyn i'r swyddog llwybrau edrych ar bont Boncen Eithin – coed yn disgyn; Hen Lon – tyllau drwg, angen cysylltu efo Cyngor Gwynedd. Llanllyfni Cwynion am ysbwriel a baw ci; Angen arwyddion 'No Through Road' i lon Tyddyn Agnes a Talgarnedd; Cwyn am ysbwriel wrth y fynwent. Nebo Cwynion am faw ci, a bod rhywun yn taflu baw ci ar lwybr 81; Bryn Sisyllt (Llanllyfni) y lon yn torri. Penygroes Eglwys – adroddiad fod rhywun yn cysgu yno, a phlant yn triwantu. Nerys wedi gyrru'r gwyn ymlaen; Twll dros y ffordd i Roberts ac Owen, ac un arall yn uwch i fyny, yn y sianel, ac yn beryglus (32 Stryd Fawr); Ffosydd cae Trem yr Wyddfa wedi cau efo gor-dyfiant ac angen sylw brys, neu mae bygythiad llifogydd i'r tai o bosib. Cysylltu efo Barry Maylor Williams yng Nghyngor Gwynedd. Tyllau wrth 50, 53,54 Trem yr Wyddfa, a cyrb angen sylw wrth 55 Trem yr Wyddfa; Lon Las (dod allan wrth cae Nantlle Vale) cwynion fod beic cwad yn malu'r llwybr.
- 7. Cyfraiadau ariannol 2018-19a Thaliadau Adran 137.** Dewiswyd rhannu £125 yr un i'r canlynol:
Neuadd Goffa Llanllyfni
Cymdeithas Garddio Dyffryn Nantlle
Clwb Ffermwyr Ieuanc Eryri
Dyffryn Nantlle 2020
Iwth Pen
Pwyllgor Ardal Nebo a Nasareth
Lleu
Cynghrair Pel Rwyd Gwynedd a Mon
Ffrindiau Ysgol Baladeulyn
Llys Llywelyn
Ffair Nadolig Penygroes
Apel Ambiwlans Awyr Cymru i Blant
Grwp Blodeuwedd
Pwyllgor Eisteddfod Gadeiriol Llanllyfni
Clwb y Caban
Cafwyd cais am£100 tuag at osod peiriant De-Fibrilator ym Mhenygroes, a phenderfynwyd cymeradwyo.
Prosiect Pentrefi Cafwyd cais prosiect hyfforddi a gwaredu Canglwm Siapaniaidd oddi ar Gors y Llyn, Nebo gan Grwp o Nebo. Penderfynwyd cyfrannu £1000 tuag at yr hyfforddi. Pawb yn cytuno.
- 8. Taflen Ariannol a Chyllid.** Cytunwyd ar y daflen ariannol.
- 9. Cynllunio** .C18/1202/22/LL Bryn Awelon, Ffordd Carmel – trosi adeilad allanol - caniatâu; C19/0072/22/AC Grej Povey, Penygroes – cais i ryddhau amod 12 o ganiatad blaenorol yn ymwneud ag offer awyru – caniatâu C19/0054/22/LL Fferm Coed Madog, Talysarn – estyniad deulawr ochr – Harry Wyn Owen a Sian Dafydd yn datgan diddordeb a gadael yr ystafell. Caniatâu; C19/00823/22/LL 32 Ffordd y Sir, Penygroes – estyniad – caniatâu.
- 10. Cyfarfodydd is-bwyllgor / cyfarfodydd yn ystod y mis.** Harry, Ffion, Nora a Sian yn cyfarfod efo cwmni Dorothea yfory; Iona, Barry a Justin wedi cyfarfod efo swyddog Cyngor Gwynedd ym Mhenygroes i

drafod y cynnig am llochesi bws newydd i'r pentref. Y bwriad yw dymchwel y lloches bws sydd dros y ffordd i'r Co-op newydd, a rhoi un perspex newydd yn ei lle gyda lle i fws droi i fewn, a lloches arall dros y lon (doedd dim lle addas yn uwch i fyny'r pentref). Disgwylir y bydd y gwaith yn cael ei gwblhau o fewn y flwyddyn.

11. Goleuadau Nadolig. Penderfynwyd symud ymlaen a chychwyn ar y daith rwan o gael pwyntiau trydan ar polion lamp stryd yn y pentrefi (Harry Wyn Owen yn cynnig a Gwyndaf yn eilio). Gofynwyd i Dylan symud ymlaen efo'r trafodaethau.

12. Presenoldeb. Adroddwyd fod Dafydd Wyn Jones wedi methu mwy na 6 cyfarfod, ac felly daw ei sedd yn wag. Gofynwyd i'r Clerc hysbysu'r swyddog priodol yng Nghyngor Gwynedd. Gan fod Dafydd yn cynrychioli'r Cyngor ar is-grwp chwarel gofynwyd i'r Clerc roi eitem ar yr agenda mis nesaf, ac ebostio Judith i'w holi beth yw'r diweddaraf.

13. Gohebiaeth

***Cyngor Gwynedd:**

*Gorchymyn Cyngor Gwynedd cau ffordd dros dro – Bro Silyn; Ffordd Rhedyw; Allt Doli, Penygroes.

Darllenwyd yr wybodaeth.

*Gorchymyn Cyngor Gwynedd – gwahardd a chyfyngu manau parcio – Talysarn a Phenygroes. Darllenwyd yr wybodaeth.

*Adolygu Cludiant. (Harry Wyn Owen yn datgan diddordeb). Fe'n hysbyswyd fod holiadur i'w gwblhau. Gofynwyd i'r Cerc gysylltu efo Cyngor Gwynedd i wahodd swyddog i'n cyfarfod mis nesaf, a dod a chopiau caled o'r holiadur gyda hi. Hefyd awgrymu y byddai yn syniad rhoi'r holiaduron ar y bysiau i'r cyhoedd eu cwblhau.

*Cynllun Pensiwn – er gwybodaeth.

***Arall**

*Cynllun Datblygu Lleol Eryri – cyhoeddi adroddiad yr arolygydd. Er gwybodaeth

*Un Llais – Cylchlythyr Comisiynydd Pobl Hyn Cymru; Egnio co-op; Bwletin Un Llais; Cynllun Ffioedd Swyddfa Archwilio Cymru; Adroddiad Archwilio Mewnol. Yr ohebiaeth wedi eu rhannu ar ebost yn ystod y mis.

*Clerks and Councils Direct – ar y bwrdd.

*Diwrnod Agored – Ambiwllans Awyr – er gwybodaeth.

*Play Wales – e-fwletin.

*Rhian George – Swyddog Cefnogi Cymunedau Ardal Gwyrfaei. Ebost yn cyflwyno ei hun i'r Cyngor.

14. Biniau Halen Dim ymateb gan y Swyddog o'r Cyngor, ond cadarnhaodd y Cynghorwyr fod y biniau wedi eu llenwi.

15. Clwb Ieuentid Trafodaethau yn parhau (gweler eitem Cynghorwyr Sir).

16. Llwybrau a Mynwentydd/Prosiect MacPelah Profi Cerrig. Penderfynwyd derbyn pris P Johnson – a gofyn os y byddai'n bosib iddo brofi'r cerrig fis Medi neu Hydref nesaf – ac oes posib rhoi marker sydd ddim yn gludo ar y cerrig fel ein bod yn sympathetig tuag at y teuluoedd.

17. Materion yn ymweud a'r heddlu. Dim yn codi.

18. Materion ariannol – *Anfonebau: A Johnson – derbynebau; A Johnson - £25 Ffôn/Rhyngwrwyd; Cyngor Gwynedd (Llyfrgell) £1240; Cyngor Gwynedd (Prosiect MacPelah) £81600 (yn cynnwys TAW) – Caniatwyd talu'r anfonebau, a trosglwyddo £55000 o gyfrif 01108549 i 51108530.

Eitem ar yr agenda fis nesaf – Bordiau cyflymder.